

## **Rheol Sefydlog 21**

### **Dyfarniadau Uwchraddedig Modiwlwr trwy Gwrs**

*Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys i gynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarnu graddau Meistr a ddysgir, Tystysgrifau Uwchraddedig a Diplomâu Uwchraddedig. Dylid ei darllen ar y cyd â'r rheoliadau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y cynllun astudio o dan sylw. Oni nodir fel arall, mae'n berthnasol i raglenni sy'n cychwyn o Fedi 2013. Bydd myfyrwyr a gofrestrwyd ar raglenni cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu llywodraethu gan y rheoliadau a oedd mewn grym ar yr adeg y cawsant eu derbyn.*

#### **Mynediad**

- 1 Rhaid i bob ymgeisydd faticwleiddio gyda'r Brifysgol.

Yn unol â'r Rheoliadau Matricwleiddio, mae'r Brifysgol yn darparu rhestr o safonau cymeradwy a fydd yn caniatáu mynediad i ymgeisyddiaeth (Rheoliadau Cymeradwyo Cymwysterau a Phrofiad Perthnasol i Dderbyn Personau i Raddau Uwch, Diplomâu a Thystysgrifau Prifysgol Aberystwyth).

Rhaid i argymhelliad o blaid derbyn ymgeisydd nad yw'n meddu ar gymhwyster mynediad cydnabyddedig gael ei wneud gan yr adran o dan sylw i'r Swyddfa Derbyn Graddedigion, a rhaid cael cadarnhad bod yr argymhelliad wedi ei gymeradwyo cyn i'r cynllun astudio arfaethedig ddechrau.

#### **Strwythur y Cynllun**

- 2 Gall ymgeiswyr ymgymhwyso ar gyfer Gradd Meistr drwy Arholiad a Thraethawd Hir ar ôl dilyn cynllun astudio wedi ei ddysgu a gymeradwyir a hynny yn amser llawn, yn rhan-amser neu trwy ddulliau dysgu o bell. Bydd cynllun yn cwmpasu modiwlau a ddysgir gwerth 120 o gredydau a modiwl astudio annibynnol 60 modiwl ar ffurf traethawd hir neu ffurf gymeradwyedig arall sy'n bodloni canlyniadau dysgu'r cynllun.

#### **Trosglwyddo Credydau**

- 3 Caniateir Trosglwyddo Credydau mewn perthynas â chynlluniau astudio modiwlwr hyd at y terfynau cyffredinol sydd wedi eu sefydlu yn y Rheoliadau. Gellir cael rhagor o wybodaeth am broses trosglwyddo credydau o dan y system fodiwlwr yng Nghynllun CAT y Brifysgol.

#### **Asesu**

- 4 Gall asesiadau modiwlau a ddysgir y cynllun astudio gymryd ffurf cyfres o bapurau arholiad ysgrifenedig nas gwelwyd a/neu fath arall o asesiad, megis prosiectau gosod neu waith cwrs penodedig.

- 5 Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn y Brifysgol ac eithrio, o dan amgylchiadau eithriadol, y caiff ymgeiswyr sefyll arholiad ysgrifenedig mewn Sefydliad arall neu, o dan amodau a gymeradwyir, mewn man heblaw Sefydliad arall. Gellir rhoi cymeradwyaeth gan y Dirprwy

Is-Ganghellor ar yr amod y gellir gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer yr arholiad dan sylw ac y caiff unrhyw dreuliau eu talu gan yr ymgeisydd. Ni chaiff ymgeiswyr, mewn unrhyw achos, gymryd arholiad ymarferol mewn unrhyw Sefydliad arall. At ddibenion y paragraff hwn bennir nad yw arholiad ymarferol yn cynnwys ymarfer dysgu neu leoliadau tebyg.

6 Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd (gan gynnwys y rhai sy'n ailsefyll arholiadau) yn ysgrifenedig ar ddechrau'r sesiwn perthnasol am y dulliau asesu sydd i'w defnyddio, gan gynnwys y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno darnau o waith i'w asesu.

7 Caiff unrhyw ymgeisydd sy'n dilyn cynllun astudio yn y Brifysgol ddewis cyflwyno sgriptiau arholiad neu waith i'w asesu yn y Gymraeg neu'r Saesneg - ni waeth ai'r Gymraeg ynteu'r Saesneg yw prif iaith asesu'r cynllun o dan sylw. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hasesu mewn iaith (h.y. naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg) heblaw prif iaith yr hyfforddi/asesu ar gyfer y cynllun o dan sylw hysbysu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg erbyn y dyddiad cau a bennir gan y Brifysgol.

### ***Marciau Llwyddo/Teilyngdod/Rhagoriaeth***

8 50% yw'r marc llwyddo modiwlwr. Er mwyn ennill gradd Meistr, rhaid cael marc wedi ei bwysoli o 50% o leiaf am y cyfan, heb fod mwy nag 20 credyd yn is na 50%.

9 Er mwyn cael gradd Meistr â Rhagoriaeth rhaid i ymgeisydd ennill marc wedi ei bwysoli o 70% o leiaf am y cyfan. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer Rhagoriaeth ond sy'n ennill marc cyffredinol o 60% neu ragor ennill gradd Meistr â Theilyngdod.

10 Os eithriwyd ymgeisydd rhag modiwl neu fodiwlau o dan drefniadau trosglwyddo credydau, caiff y marciau ar gyfer y credydau sy'n cael eu trosglwyddo eu cofnodi cyn trosglwyddo, er mwyn cyrraedd marc canran cyffredinol.

### ***Dyddiadau cau***

11 Mae dyddiadau cau y Brifysgol ar gyfer cwblhau Gradd Meistr wedi eu pennu yn y Rheoliadau. Ni fydd unrhyw waith a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei arholi a bennir bod yr ymgeisydd wedi methu drwy beidio â'i gyflwyno.

12 Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd ymgeiswyr yn cyflwyno'u traethawd hir neu waith cyfatebol cymeradwy erbyn y dyddiad cau a bennir, a bydd ymgeisyddiaeth yn ddi-rym os na chyflwynir y gwaith o fewn dyddiadau cau y Brifysgol. Er hynny, gellir estyn dyddiad cau, yn eithriadol, ar seiliau tosturiol, neu mewn achosion o salwch, anawsterau domestig difrifol neu oherwydd ymrwymadau proffesiynol eithriadol neu broblemau ymchwil annisgwyl y gellir dangos eu bod wedi effeithio'n andwyol ar yr ymgeisydd. Rhaid llunio achos llawn a rhesymedig, a ategir â thystiolaeth feddygol neu dystiolaeth annibynnol arall sy'n briodol ac yn foddhaol, i'w ystyried.

•Yn achos ymgeiswyr sy'n gofyn am estyniad ar seiliau tosturiol, rhaid darparu tystiolaeth foddhaol i ategu'r achos; rhaid darparu hefyd ddatganiad clir, sy'n dangos bod yr adran o dan sylw wedi cloriannu sefyllfa'r ymgeisydd a'i bod yn credu bod yr estyniad y gofynnwyd

amdano yn briodol. Ble bynnag y bo modd, bydd y cyfryw ddatganiad yn dilyn cysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymgeisydd a'r adran.

- Yn achos ymgeiswyr sy'n cyfeirio at ymrwymadau proffesiynol eithriadol, rhaid i gadarnhad a disgrifiad ysgrifenedig gan y cyflogwr o'r baich gwaith eithriadol sydd ar yr ymgeisydd gael eu rhoi gyda'r cais.

- mewn achosion sy'n deillio o salwch:

- (i) rhaid darparu tystiolaeth feddygol foddhaol. (Mae maint a natur y salwch fel y'u disgrifir yn y dystysgrif yn amhrisiadwy wrth asesu'r achos.)
- (ii) rhaid darparu datganiad clir, sy'n dangos bod yr adran o dan sylw wedi cloriannu'r sefyllfa a'i bod yn credu bod yr estyniad y gofynnwyd amdano yn briodol. Ble bynnag y bo modd, bydd y cyfryw ddatganiad yn dilyn cysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymgeisydd a'r adran.

13 Rhaid i geisiadau am estyniadau gael eu cyflwyno i'w hystyried yn y Byrddau Arholi perthnasol.

### ***Methu ac Adfer***

14 Cynhelir cyfarfod o'r arholwyr er mwyn ystyried canlyniadau ymgeiswyr yn y modiwlau a'u canlyniadau cyffredinol ar ôl iddynt gwblhau'r 180 credyd.

Rhaid cael cadarnhad Bwrdd Arholi perthnasol y Brifysgol ar gyfer pob canlyniad uwchraddedig trwy gwrs.

15 Llywodraethir penodiad arholwyr allanol ar gyfer cynlluniau graddau Meistr a ddysgir gan God Ymarfer ar gyfer Arholwyr Allanol y Brifysgol. Anfonir copïau o'r ddogfen hon at bob arholydd allanol pan gânt eu penodi ond fel arall mae ar gael ar wefan y Brifysgol.

16 Gellir argymhell dyfarnu Diploma neu Dystysgrif Uwchraddedig berthnasol y Brifysgol i ymgeisydd sydd wedi dilyn cynllun astudio a ddysgir ac sydd wedi hynny naill ai'n methu â chyflwyno traethawd hir o fewn y terfyn amser a bennir neu sy'n cyflwyno traethawd hir nad yw'n cael ei gymeradwyo gan yr arholwyr neu sy'n methu modiwlau eraill ac oherwydd hynny yn methu â bodloni gofynion y radd Meistr.

17 Bydd elfen astudio annibynnol cynllun gradd Meistr yn cymryd ffurf traethawd hir ac eithrio lle y mae math arall o asesiad wedi ei gymeradwyo mewn perthynas â'r cynllun o dan sylw gan y Brifysgol.

18 Ac eithrio lle pennir yn wahanol, ni ddylai traethawd hir neu gyflwyniad cyfatebol a gymeradwyir fod yn hwy na 15,000 o eiriau.

19 Er ei bod yn arferol i'r un arholydd allanol arholi ymgeisydd ar gyfer y cynllun cyfan, gellir penodi arholydd annibynnol i arholi'r traethawd hir (neu'r gwaith cyfatebol a gymeradwyir) pan fydd angen gwybodaeth arbenigol neu arbenigedd.

20 Lle y bo dadl yn codi rhwng yr arholwr allanol a'r arholwr neu'r arholwyr mewnol, gellir penodi arholwr allanol arall a gofyn iddo neu iddi ddyfarnu. Gall dewis Arholwr Dyfarnu Allanol ystyried unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynir gan aelodau'r Bwrdd Arholi a chaiff hefyd ystyried unrhyw enwebiad a wneir gan y Bwrdd gwreiddiol - ond nid oes yn rhaid iddo neu iddi fod yn rhwym wrtho.

Pan benodir ef neu hi, bydd yr Arholwr Dyfarnu Allanol yn cael copi o waith yr ymgeisydd ynghyd ag adroddiadau'r arholwyr gwreiddiol a'r 'Nodiadau ar gyfer Arholwyr Dyfarnu Allanol'.

Wrth ystyried gwaith yr ymgeisydd, gall Arholwr Dyfarnu Allanol ddewis cyfeirio at adroddiadau'r arholwyr gwreiddiol neu beidio (ac, os felly, pryd y gallai wneud).

### ***Derbyn i Radd***

21 Mae'r broses o dderbyn ymgeiswyr i'w graddau naill ai:

- (i) drwy fynychu cynulliad graddio ffurfiol, neu
- (ii) in absentia, drwy ddatganiad gan yr Is-Ganghellor. Gweithdrefn weinyddol yw hon a gyflawnir ar adegau mynych drwy'r flwyddyn.

Mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu derbyn i'w gradd mewn cynulliad, rhaid i'r gofyniad uchod fod wedi ei fodloni erbyn dyddiad sy'n ddigon cynnar ym mis Mehefin i ganiatáu i'r ymgeisydd gael ei gynnwys yn rhaglen y cynulliad. Dylai'r sawl sy'n cymryd arholiadau y disgwylir eu canlyniadau yn ystod y cyfnod o dan sylw gysylltu â'r Swyddfa Graddio i gael gwybodaeth am y dyddiad olaf ar gyfer gwneud hyn.

### ***Apeliadau***

22 Caniateir i ymgeiswyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yr arholwyr wneud hynny o dan delerau Gweithdrefn Gwirio ac Apelio'r Brifysgol.

### ***Arferion Annheg***

23 Y mae'n arfer annheg cyflawni gweithred lle y gallai unigolyn gael mantais nas caniateir iddo/iddi ei hun neu i berson arall, a fyddai'n arwain at farc neu radd uwch nag a fyddai'n bosibl o ddibynnu ar ei alluoedd/galluoedd ei hyn yn unig.

Ymdrinnir â honiadau o arfer annheg o dan 'Weithdrefn Ymddygiad Annheg' y Brifysgol.

### ***Dyfarniadau Aegrotat/Ar ôl Marwolaeth***

24 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Rheoliadau y gellir rhoi dyfarniadau aegrotat neu ddyfarniadau ar ôl marwolaeth o danynt.

Awst 2013